

# CYNGOR CYMDEITHAS CYNWYD

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 5 Medi 2017 yn y Neuadd Bentref

**PRESENNOL** – Gwen Wynne (Cad), Richard Bodden, Huw Evans, Delyth Thomas, Nesta Wivell, Gwen Wynne a Mabon ap Gwynfor (Cynghorydd Sir)

## **AELODAU CYHOEDD**

Edward Davies

## **YMDDIHEURIADAU**

Gwyneth Ellis, Anna Thomas, Nan Jones

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod. Cyn ymdrin á materion y Cyngor derbyniwyd cyflwyniad oddi wrth Geoff Davies, Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol sydd yn gweithredu o fewn Tai Sir Ddinbych. Mae'r broses o ymgeisio am dy rhent cymdeithasol wedi newid yn ddiweddar a bellach mae'r cynllun SARTH (Single Access Route To Housing) sydd yn bartneriaeth ar y cyd rhwng awdurdodau lleol Sir Ddinbych, Flint a Conwy sydd yn cynnwys landloriaid cymdeithsol sydd yn gweithredu o fewn y siroedd. Yn y gorffennol roedd gofyn i ymgeiswyr gwblhau ffurflen gais ar gyfer pob landlord cymdeithasol gan gynnwys y Cyngor Sir er mwyn cofrestru ar y rhestr aros. Bellach yn Sir Ddinbych un rhestr aros sydd yn bodoli ac mae'r system wedi symleiddio fel bod ymgeiswyr nawr yn cael eu cyfweld dros y ffôn ac mae'r broses wedi trosglwyddo o fod yn system bwyntio i system bandio. Ceir 4 band ac fe'i rhennir yn 2 fand sy'n ymwneud á chysylltiad lleol a 2 fand sydd ddim yn ymwneud á chysylltiad lleol.

Cadarnhawyd bod cyllideb Tai Sir Ddinbych hollol arwahan i weddill cyllideb Cyngor Sir Ddinbych ac fe'l hariannir yn gyfangwbl gyda incwm rhent a gellir cael benthyciadau ar sail hyn.

Mae nifer y stoc o fewn y Gymuned yn isel iawn ac mae'r tenantiaid sydd yn byw o fewn y stoc dai yn ymweld wedi setlo yn dda yn eu cartrefi ac ddim yn achosi niwsans, yn ogystal mae'r trosiant yn isel iawn.

Cadarnhawyd bod y bartneriaeth yn y broses o ymgynghori ar bolisi gosod lleol ar gyfer cymunedau gwledig sydd yn cyfeirio bod rhaid i ymgeiswyr fod á cysylltiad lleol gyda'r gymuned y maent yn ymgeisio am eiddo.

Diolchwyd i Geoff Davies am fynychu'r cyfarfod a phasiwyd y byddai Delyth yn cael gopi o taflen wybodaeth a'i roi yn yr hysbysfwrdd.

## **TIR Y GRAIG**

Roedd Edward Davies yn bresennol i'r cyfarfod i ymholi ynglŷn á beth oedd yn digwydd gyda Thir y Graig ac roedd yn cynrychioli ei fab Andrew wrth ddatgan y byddent gyda diddordeb mewn rhan mawr o'r graig ar gyfer anghenion dyfodol y teulu.

Cadarnhaodd Gwen bod cytundeb ar hyn o bryd mewn lle gyda'r graig ond byddai yn darganfod gwybodaeth amdano erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunodd Edward Davies i fynychu'r cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser cytunodd Mabon i drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.

## **PENODI CLERC**

Yn anffodus nid oedd neb wedi ymgeisio am y swydd oedd yn siomedig iawn. Mynegwyd pryder gan Delyth bod y drefn presennol o gwblhau'r gwaith gweinyddol yn mynd yn flêr gan mai dim ond y cofnodion oedd wedi eu gwneud yn dilyn y cyfarfod diwethaf.

Cynigiodd Delyth i fod yn gyfrifol am gadw cofnodion y cyfarfodydd (dros dro) ond bod angen rhywun arall i ymdrin á gwaith gweinyddol sydd yn dilyn cyfarfodydd megis anfon llythyrau / ebyst ac yn y blaen. Cytunodd Nesta i fod yn gyfrifol am gwblhau gwaith gweinyddol y cyfarfod yma.

### **CYFLWR MEINCIAU**

Diolchwyd i Richard Bodden am ymdrin á'r gwaith o atgyweirio a pheintio meinciau'r gymuned. Nododd Gwen bod lawer o bobl y pentref wedi cyfeirio at y gwaith hyn. Gofynnwyd i Richard gyflwyno costau'r deunyddiau i'r cyfarfod nesaf.

### **MANYLION TORRI GWAIR SIR DDINBYCH**

Derbyniwyd copi o'r polisi diweddaraf er gwybodaeth.

### **COEDEN YNG NGODRE'R COED**

Derbyniwyd cwyn ynglŷn á choeden sydd wedi gordyfu o flaen byngalo rhif 12. Gofynnwyd i Mabon drafod y mater gyda'r Cyngor Sir.

### **GWRYCH GER BRYN BERLLAN**

Derbyniwyd pryder bod y gwrych wedi gor-dyfu i'r ffordd ac yn beryglus gyda pobl yn cerdded y ffordd. Pasiwyd i gysylltu á'r perchnogion i ofyn iddynt ymdrin á'r gwrych.

### **CWN CELYNGOED**

Yn dilyn digwyddiad diweddar pan bu i'r cwn rhedeg yn rhydd ac ymddwyn yn fgythiol iawn gyda aelodau'r cyhoedd oedd yn cerdded ar hyd y ffordd islaw Celyngoed clywyd bod yr heddlu wedi ymdrin á'r mater a bod rhaid i'r cwn nawr wisgo mwgwl os yn cael eu gollwng allan o'r ardd. Nid oedd angen i'r Cyngor ymdrin á'r mater.

### **CYFLWYNO SYLWADAU/CWYNION**

Mynegodd Gwen bod rheol wedi ei greu gyda'r cyn gyngor bod rhaid i unrhyw un oedd eisiau cyflwyno unrhywbeth i'r cyngor ei gyflwyno yn ysgrifenedig gan gynnwys enw a chyfeiriad. Pasiwyd i'r drefn yma barhau gyda'r Cyngor newydd.

### **CAIS YSGOL BRO DDYFRDWY**

Cadarnhaodd Gwen bod Mrs Catrin Phillips wedi ymholi ynglyn á chynorthwyo i gymreigio bywyd cymdeithasol y dysgwyr. Pasiwyd i estyn gwahoddiad i gynrychiolydd o'r ysgol I fynychu'r cyfarfod nesaf i fanlyu mwy ar y cais.

### **GOHEBIAETH BLAENOROL Y CYNGOR**

Cadarnhaodd Huw ei fod wedi trio cael trefn ar y wybodaeth a dderbyniwyd ar y c6f bach ond yn anffodus roedd safon y wybodaeth yn wael a diffyg trefn. Cytunwyd iddo beidio á gwastraffu amser ond i gadw'r gwybodaeth yn saff rhag ofn byddai angen cyfeirio n6l i drafod unrhyw fater. Yn sgil y drafodaeth pasiwyd i Llion Jones ddod á'r bocsys a dderbyniwyd gan y cyn-glerc i'r cyfarfod nesaf a cytunodd Huw i ofalu amdanynt.

### **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Pen y Bryn** – Codi annedd newydd a gwaith cysylltiedig - Cymeradwyo

**Llew Glas** – newidiadau mewnol ac allanol i'r gwesty a thrawsnewid adeilad allanol i osod gwyliau llety a gweini prydau poeth – Cymeradwyo

**2 Bwthyn Ty'n y Berth** – Codi Estyniad – Cymeradwyo

### **SAFLE WÊ Y CYNGOR**

Cadarnhaodd Delyth nad oedd wedi gwahodd lan i fynychu'r cyfarfod gan bod Geoff Davies yn mynychu'r cyfarfod. Cytunwyd iddo fynychu'r cyfarfod nesaf ym mis Hydref.

### **Y FYNWENT NEWYDD**

Derbyniwyd cais i osod mainc yn y fynwent newydd. Pasiwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf.

### **GYRRU TRWY'R PENTREF**

Derbyniwyd diweddariad gan Mabon yn dilyn trafodaethau blaenorol y Cyngor Cymdeithas. Yr wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Mark Musgrave oedd bod:

speed bumps a elwir yn "cushions" yn creu llawer o swm a byddai hyn ddim yn ymarferol o ystyried y tai cyfagos.

Arwyddion fflachio – ddim yn effeithiol gyda phobl lleol unwaith maent wedi eu pasio fwy na dwy/tair gwaith ac yn cael eu hanwbyddu.

Gan bod y cyngor sir wedi gwario oddeutu £40,000 ar y cynllun presennol i arafu traffig. Serch hyn teimlwyd bod angen i fonitro sefyllfa'r traffic er mwyn cyflwyno unrhyw dystiolaeth ymlaen i'r Cyngor Sir. Cytunodd Huw i gysylltu gyda Ceri o'r heddlu i ddatgan diddordeb i gynorthwyo o ran monitro cyflymder.

### **ARWYDD GER MYNEDFA TRÊLARS IFOR WILLIAMS**

Derbyniwyd sylw bod sillafiad y Gymraeg yn anghywir. Cytunodd Richard i ymholi pwy oedd yn gyfrifol am yr arwydd os mai cyfrifoldeb Ifor Williams neu'r Cyngor Sir ydoedd.

### **GLINIADUR**

Yn dilyn yr argymhelliad bod angen prynu gliniadur i'r Cyngor, pasiwyd i drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

### **SAFLE WÊ Y CYNGOR**

Eglurodd Delyth nad oedd wedi gwahodd Ian i fynychu'r cyfarfod fel a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol oherwydd bod Geoff Davies yn mynychu'r cyfarfod i drafod SARTH. Pasiwyd i'w wahodd i'r cyfarfod nesaf.

### **ARCHWILIAD 2016/2017**

Cadarnhaodd Gwen ei bod wedi trafod sefyllfa'r Cyngor gyda cynrychiolydd o'r Comisiwn Archwilio, ond nid oedd cadarnhad ysgrifenedig o'r hyn a drafodwyd a chytunwyd wedi ei dderbyn hyd yma.

### **SUMMARY OF THE MEETING HELD ON TUESDAY 05/09/17**

Full English translated version available from the Council and on the Council's webpage – Cynwyd.Cymru

Geoff Davies, Lead Officer for Community Housing within Denbighshire County Council gave a presentation and explained how the application process of applying for social rented housing had recently changed and a new process named SARTH (Single Access Route to Housing) has been set up. This is a partnership between Conwy, Denbighshire and Flintshire local authorities and the housing associations that operate within the counties.

### **PLANNING APPLICATIONS**

**Pen y Bryn** – Erection of a replacement dwelling and associated works – Approve

**Blue Lion** – Internal and external alterations to the hotel and conversion of outbuilding to form kitchen and hot food takeaway servery - Approve

**2 Ty'n y Berth Cottages** – Erection of an extension – Approve

### **SUBMITTING COMMENTS / COMPLAINTS**

Gwen mentioned that the previous Council had created a rule that any comment or complaint should be submitted in writing and that the submission must include a name and address and be signed. It was agreed for this procedure to continue.

### **APPOINTING A CLERK**

Unfortunately nobody had applied for the post which was very disappointing. Delyth expressed concerns regarding the current temporary arrangement relating to the admin work following meetings.

A recommendation was received from Delyth that she would keep minutes of every meeting as long as another person was undertaking the remainder of the admin work– letters, emails etc. Nesta agreed to undertake this work for the month of September.

### **SPEEDING THROUGH THE VILLAGE**

An update was received by Mabon following recent discussions at the community council. Mark Musgrave confirmed that:

speed bumps also known as "cushions" create a lot of noise and was not a practical option considering the nearby houses.

Flashing Lights – not effective with local people once they have passed a few times the signs are ignored.

As the Council has spent approximately £40,000 on the current system to slow the traffic it was foreseen that the council would not be willing to spend further on the matter. Regardless of this, it was felt that traffic still needs to be monitored in order to submit any evidence to Denbighshire. Huw agreed to contact Ceri from the Police to convey his interest in assisting with monitoring speed.

**PREVIOUS CORRESPONDENCE OF THE COUNCIL**

Huw confirmed that he had attempted to try to organise the information received on the memory stick in an organised manner but unfortunately due to the poor standard and organisation this task was taking a considerable amount of time to complete. It was agreed not to continue with this exercise but to ensure that the information was kept safe in case there would be a need to refer back to it in the future. During the discussion it was agreed for Llion Jones to return the boxes received from the former clerk to the Council at the next meeting and Huw agreed to store the information.